

*Cawsom ein hannog yr wythnos diwethaf gan Parch Brian Jones, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol i ymateb i'r cynhaeaf toreithiog sydd o'n cwmpas trwy ddweud wrth yr Arglwydd "Dyma fi".  
Y tro hwn caiff llywyddion Sasiwn y Gogledd a'r De ein hannog gyda'i gweledigaeth a'u profiad o beth yr ydym yn ei gyflawni ar hyn o bryd ac aeddfedwydd y byd i'r cynhaeaf mawr.*

## Tymor newydd – i oroesi neu aileni?

Sut Awst a gawsoch chi tybed? Dwi'n sylwi fod dros hanner eglwysi Henaduriaeth Arfon heb gynnal oedfa yn ystod y mis hwn, a bod eraill yn cael trafferthion. Dim ond pedwar gweinidog amser llawn sydd gennym, (ac os oes rhywun yn haeddu seibiant, hwy yw'r rheiny), a rhyw ddyrnaid o rai wedi ymddeol, ond y mae cant a hanner o flaenoriaid gennym. Beth a ddywed ystadegau wrthym? Rhai digon digalon a gafwyd yn y Gymanfa Gyffredinol yn ystod mis Gorffennaf, ond y gofid mwyaf a fynegwyd oedd am ddyfodol y staff a rhediad ein swyddfa ganolog, wedi i'n Hysgrifennydd Cyffredinol orffen ddiwedd y flwyddyn bresennol.

Ysgrifennydd neu beidio, y mae gennym dros 600 o eglwysi, rhyw 2,000 o flaenoriaid, ac oes mae yna dros 50 o weinidogion yn gwasanaethu o hyd. A beth am yr holl weithwyr a gyflogir gennym, heb anghofio am staff ein Colegau? "**Strategaeth o aileni yn hytrach na goroesi yw ein hangen pennaf**", meddai David Ollerton yn ei lyfr *Cenhadaeth Newydd i Gymru*. Onid ydyw aileni'n golygu bod yna broses o newid yn gorfod digwydd, a gall hynny fod yn boenus; ond er hynny'n mae'n broses hanfodol er mwyn sicrhau bywyd newydd yn hytrach na goroesi blinderus. Beth y mae hynny yn ei olygu i ni ym mis Medi fel hyn?

Awgrymaf dri pheth:

**Gweddïo:** gallwn weinyddu'n broffesiynol a chynnig cynlluniau aruchel er ceisio goroesi, ond heb weddi, go brin y gwelwn ailenedigaeth. Rhaid cychwyn gyda'n perthynas â Duw, a mynnu bod adfer y wedd ysbrydol yn cael y flaenoriaeth ar bopeth arall. Dywedodd yr Archesgob William Temple galon y gwir, "Oni fyddwch yn gweddïo am newid, yna ni ddaw unrhyw newid yn eich sefyllfa." "Ymrowch i **weddi** ac ymbil..." (Effesiaid 6:18.)

**Gwylïo:** "**Gwylïwch**, byddwch effro.." (Marc 13:33) meddai'n Harglwydd.

Yn nyddiau'r prinder pregethwyr, a darllen y Beibl, gwylïwn gollï cyfle i newid ein patrymau addoli, a meithrin arweinwyr ysbrydol o fewn ein heglwysi, neu i uno gyda chynulleidfa gyfagos. Yn nyddiau'r digonedd o adnoddau yn y Gymraeg mewn llyfrau a fideos ac ati, gwylïwn gollï cyfle i'w defnyddio. Mewn dyddiau ble mae unigrwydd a phroblemau o bob math yn llethu pobl sydd o'n cwmpas, gwylïwn gollï cyfle i gynnig cymdeithas agored a gwir gyfeillgarwch iddynt.



### Gweithio:

*Beth yw'r llesgedd blin a'n daliodd Pan fo gofyn am grwsâd?*

#### Yfory

Yfory nid yw Duw yn mynd i ofyn, Beth a freuddwydiaist?  
Beth a feddyliaist?  
Beth a gynlluniaist?  
Beth a bregethaist?  
Y mae'n mynd i ofyn,  
Beth a wnaethost?

(Michel Quoist)

"...Byddwch yn gadarn a diysgog, yn helaeth bob amser yng **ngwaith yr Arglwydd**, gan eich bod yn gwybod nad yw eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd ." (1Cor., 15:58)

**Parch Eric Jones**  
*Llywydd Sasiwn y Gogledd*

## Cynllunio a Chynlluniau

Wrth deithio i Abertawe yn ddiweddar gwelais arwydd gyda'r geiriau **Plan Ahead** arno.

Dyma'r arwydd a welais ryw fore wrth deithio yn ddiweddar i Abertawe. Rhybuddio ni oedd yr awdurdodau bod sioe awyrennau ar ddigwydd ac y byddai rhai heolydd ar gau. Bu'n rhaid imi gynllunio, felly, a chwilio am ffordd arall i fynd i Abertawe.

A dyna'n hanes ni fel eglwysi: dod o hyd i ffyrdd eraill i ddod â'r newyddion da o lawenydd mawr i'n cymunedau.

Fel llywydd Sasiwn y De, rwy'n cael y fraint o glywed am, a chynorthwyo gyda, rhai o'r prosiectau sy'n sicrhau bydd pobl sydd byth yn mynychu oedfa ffurfiol yn cael cyfle i glywed am ras Duw.

Dyma rai o'r enghreifftiau yn unig:

Llety i'r digartref yn Salem, Treganna,

Banc bwyd yn Nhabernacl, Cwmafan, Croeso a bwyd i'r digartref a'r unig yng Ngharmel, Aberafan,

Coginio yng nghapel Bwlchgwynt, Tregaron,

Bugeiliaid y Stryd yn Trinity, Abertawe, Agor y llyfr yn ysgolion Cwm Gwendraeth,

Heblaw am y lluo o weithgareddau i godi arian i Apêl y Pilipinas, yr ymweld cyson â'r cleifion, a llenwi'r pulpudd ar y Sul.

Ond mae'n gweddï'n parhau.

"Fry yn dy nefoedd, clyw ein cri,  
Pob gras a dawn sydd ynot Ti  
Nag oeda'n hwy Dy deyrnas fawr,  
O Dduw ein lôr, pâr lwydd yn awr."

**Mrs Margaret Jones**  
*Llywydd Sasiwn y De*